



Ysgoloriaethau presennol a'r meini prawf

Rydym yn cynnig 4 ysgoloriaeth gwahanol. Mae nifer yr ysgoloriaethau a ddyfernir bob blwyddyn yn amrywio. Amlinellir pob un ysgoloriaeth isod ac mae'n dilyn yr un meini prawf chwaraeon sylfaenol a nodi unrhyw feini prawf penodol isod.

Meini prawf chwaraeon: Darperir y maen prawf hwn i weithredu fel canllaw i'r ymgeisydd a'r panel dyfarnu. Nid yw bodloni'r meini prawf yn gwarantu ysgoloriaeth i chi. Dyfernir ysgoloriaethau gan ddefnyddio'r meini prawf, eu cymhwyso i'r chwaraeon, ystyried nifer yr ysgoloriaethau sydd ar gael ac ansawdd yr ymgeiswyr.

Dylai ymgeiswyr fodloni un neu fwy o'r meini prawf canlynol:

- Anrhydeddau cynrychioliadol rhyngwladol ar lefel grŵp oedran neu uwch
- Rhan o haen uchaf o lwybr perfformio eich CLIC
- Profiad sylweddol o chwaraeon proffesiynol ar lefel academi
- Llwyddiant parhaus mewn pencampwriaethau grŵp oedran cenedlaethol neu uwch

Os ydych yn teimlo bod gennych brofiad arall sy'n cyfateb i'r meini prawf hyn ac yn berthnasol i'ch chwaraeon, croesawn eich cais.

Ysgoloriaethau Chwaraeon

Swm yr ysgoloriaeth: £1,000-£5,000

Meini prawf ychwanegol: Dd/B

Ysgoloriaethau Chwaraeon i Ferched

Swm yr ysgoloriaeth: £1,000-£5,000

Meini prawf: Rhaid i ymgeiswyr gystadlu mewn chwaraeon menywod

Ysgoloriaethau Mynediad Chwaraeon

Swm yr ysgoloriaeth: £1,000-£3,000

Meini prawf: Yn cael ei ystyried yn fyfyrwr Cartref at ddibenion talu ffioedd

Mae eich cyfeiriad parhaol mewn ardal sydd â chyfraddau cyfranogiad isel mewn Addysg Uwch. Gwiriwch eich cod post yma. *

Rhaid i incwm eich cartref fod yn llai na £30,000: byddwn yn cadarnhau'r wybodaeth hon gyda Chyllid Myfyrwyr. Er mwyn caniatáu i ni wirio incwm eich cartref, rhaid i chi fod wedi cofrestru gyda Chyllid Myfyrwyr Cymru neu Loegr fel ymgeisydd 'Prawf Modd' a chael asesiad wedi'i gwblhau gyda Chyllid Myfyrwyr erbyn 31 Awst 2022. Yn ogystal, mae'n rhaid i chi, a'ch noddwr/noddwyr (e.e., eich rhiant/rhieni) roi 'Caniatâd i Rannu' manylion incwm cartref/ariannol fel rhan o'ch cais Cyllid

Myfyrwyr. Os na fodlonir y meini prawf uchod, ni fyddwch yn cael eich ystyried ar gyfer y fwrsariaeth.

*Rydym yn ddibynol ar asiantaethau allanol i ddiweddarau'r data hwn a gall y data hwn newid. Mae codau post yn cael eu categorio ar hyn o bryd yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) 2019, systemau codio POLAR4 Young, and Adult HE 2011. Darparwyd data gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) ym mis Mai 2022.

Ysgoloriaethau Chwaraeon Anabledd

Swm yr ysgoloriaeth: £1,000-£5,000

Meini prawf: Rhaid i ymgeiswyr gystadlu mewn chwaraeon anabledd

Telerau ac Amodau'r Ysgoloriaeth

1. Cymhwysedd

- I. Rhaid i ymgeiswyr fod yn astudio'n llawn amser neu'n rhan-amser yn ystod y flwyddyn academaidd 2023/24.
- II. Gall ymgeiswyr fod yn fyfyrwyr cartref neu ryngwladol sy'n talu ffioedd.
- III. Nid yw ymgeiswyr yn cael eu cyfyngu gan eu dewis cwrs.
- IV. Gellir dyfarnu ysgoloriaethau i fyfyrwyr newydd neu fyfyrwyr sy'n dychwelyd.
- V. Nid yw ysgoloriaethau ar gael i'r rhai sy'n astudio mewn colegau breiniol. Cysylltwch â'r coleg i drafod argaeledd bwrsariaethau ac ysgoloriaethau.
- VI. Nid yw bodloni'r meini prawf ar gyfer ysgoloriaeth yn gwarantu ysgoloriaeth i chi.

2. Dyraniad

- I. Mae nifer y dyfarniadau yn gyfyngedig ac yn amodol ar argaeledd cyllideb.
- II. Nid yw bodloni'r meini prawf ar gyfer ysgoloriaeth yn gwarantu ysgoloriaeth i chi.
- III. Efallai y byddwn yn dyfarnu ysgoloriaeth i chi nad ydych wedi gwneud cais amdani oherwydd cystadleuaeth ac os ydych yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer ysgoloriaeth gwahanol.
- IV. Os derbynir nifer gyfyngedig o geisiadau ar gyfer yr ysgoloriaethau sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd, yna byddwn yn manteisio ysgoloriaethau mewn rhai meysydd ac yn eu gostwng mewn eraill.

3. Y broses ymgeisio

- I. **Cyfnod ymgeisio:** Bydd angen i ymgeiswyr a hoffai gael eu hystyried ar gyfer yr ysgoloriaethau lenwi'r [ffurflen hon](#). Y dyddiad cau ar gyfer cwblhau'r ffurflen yw 30 Mehefin 2023 ond cynghorir ymgeiswyr i gwblhau eu cais cyn gynted â phosibl.
- II. **Cyfnod rhestr fer:** Ar ôl gwneud cais, i gynorthwyo'r broses o lunio rhestr fer, mae'r panel yn cadw'r hawl i gynnal cyfweiliad ffôn anffurfiol gydag ymgeiswyr. Cysylltir ag ymgeiswyr os oes angen gwneud hyn.

- III. **Cyfnod adolygu'r panel:** Bydd y ceisiadau'n cael eu hasesu yn ystod mis Gorffennaf gan y Panel Ysgoloriaethau Chwaraeon.
- IV. Dim ond i ymgeiswyr sydd wedi derbyn eu cynnig erbyn 31 Awst 2022 y caiff y ysgoloriaethau eu dyrannu.
- V. Os byddwch yn llwyddiannus, cysylltir â chi i gadarnhau'r ysgoloriaeth cyn dyddiad cychwyn eich cwrs.
- VI. Os na chysylltwyd â chi cyn dyddiad cychwyn eich cwrs, nid yw eich cais wedi bod yn llwyddiannus.
- VII. Ni ellir apelio yn erbyn penderfyniadau.

4. Cynigion ysgoloriaeth gynnar

- I. Rydym yn cadw'r hawl i ddyfarnu ysgoloriaethau cyn y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau. Pan fydd cynnig ysgoloriaeth gynnar yn cael ei ystyried, cysylltir â chi'n uniongyrchol ac fel arall dylech aros i glywed canlyniad eich cais yn dilyn y dyddiad cau.
- II. Bydd o leiaf 50% o gyllideb yr ysgoloriaeth yn cael ei neilltuo ar gyfer ar ôl dyddiad cau'r cais.
- III. Cedwir cynigion gynnar am ysgoloriaethau ar gyfer amgylchiadau eithriadol ac fe'u gwneir yn seiliedig ar y meini prawf ond yn ôl disgrisiwn y Panel Ysgoloriaethau Chwaraeon.
- IV. Gwneir cynigion ysgoloriaeth gynnar yn amodol ar yr un Telerau ac Amodau.

5.

- I. Bydd pob ysgoloriaeth yn cael ei dyfarnu'n bennaf fel swm arian parod, a delir mewn un rhandaliad.
- II. Mae'r taliad yn amodol ar gofrestru ar gwrs amser llawn erbyn 15 Hydref (yn gynwysedig). Os na fyddwch yn cwblhau cofrestru erbyn y dyddiad cau hwn, bydd y dyfarniad yn cael ei ailddyrranu i fyfyrwr arall.
- III. Os ydych yn llwyddo i ennill ysgoloriaeth, mae'n ofynnol i chi hefyd hawlio eich ysgoloriaeth erbyn y dyddiad a nodir ar eich llythyr dyfarnu. Fel arall, byddwch yn colli'r hawl i'r ysgoloriaeth, a bydd yn cael ei ailddyrranu i fyfyrwr arall.
- IV. Telir rhandaliadau ym mis Hydref yn amodol ar fodloni pob ymrwymiad. Gallai methu â bodloni'r ymrwymladau arwain at dynnu'r ail rhandaliad yn ôl.

6. Cyfyngiadau

- I. Dyfernir pob ysgoloriaeth bob blwyddyn a chaiff ceisiadau eu hadolygu bob blwyddyn academaidd. Mae angen cyflwyno cais bob blwyddyn i'w ystyried.
- II. Byddwch yn gallu gwneud cais am fwy nag un ysgoloriaeth, fodd bynnag, dim ond un ysgoloriaeth y byddwn yn ei rhoi os canfuwyd eich bod yn llwyddiannus am fwy nag un ysgoloriaeth.

7. Ymrwymladau

- I. Disgwylir i fyfyrwyr gystadlu dros Met Caerdydd yng nghystadleuaeth Chwaraeon Prifysgolion a Cholegau Prydain (BUCS) a chystadlaethau perthnasol eraill. Lle mae galwadau cystadleuol, byddai disgwyl i'r myfyrwr gychwyn trafodaeth ymlaen llaw gyda'i Bennaeth Chwaraeon neu Hyfforddwr (neu gyfwerth) a'r Rheolwr Ffordd o

Fyw ac Addysg Athletwyr i reoli llwyth a blaenoriaethau cystadleuaeth a hyfforddiant. Gallai methu â chynrychioli a/neu gymryd rhan yn y broses hon arwain at golli ysgolheictod.

- II. Disgwylir i fyfyrwyr gynrychioli Met Caerdydd mewn digwyddiadau a chymryd rhan mewn gweithgareddau hyrwyddo a marchnata. Gallai methu â gwneud hynny arwain at golli ysgolheictod.
- III. Disgwylir i fyfyrwyr ddiweddarau a rhannu cynnydd a llwyddiant chwaraeon gyda Chwaraeon Met Caerdydd ac ymateb i geisiadau am wybodaeth. Gallai methu â gwneud hynny arwain at golli ysgolheictod.
- IV. Os ydych yn gohirio/tynnu'n ôl o'ch astudiaethau, neu'n newid i astudio'n rhan-amser, bydd hyn yn arwain at golli'r ysgoloriaeth. Byddem yn eich cynghori i gysylltu â scholarship@cardiffmet.ac.uk cyn i chi ohirio, tynnu'n ôl, neu newid eich dull astudio.

Sut rydym yn storio eich data

Hysbysiad Preifatrwydd Prifysgol Metropolitan Caerdydd ar gyfer Talu Ysgoloriaethau Chwaraeon

Prifysgol Metropolitan Caerdydd yw'r Rheolwr Data ac mae wedi ymrwymo i ddiogelu hawliau unigolion yn unol â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR). Gellir dod o hyd i Ddatganiad Preifatrwydd y Brifysgol yma: <http://www.cardiffmet.ac.uk/about/Pages/privacy-statement.aspx>

Gellir cysylltu â Swyddog Gwybodaeth a Chydymffurfiaeth Data Prifysgol Metropolitan Caerdydd drwy'r llwybrau canlynol (os oes gennych unrhyw ymholiadau pellach ynglŷn â phrosesu eich data): Ffôn: 02920 20 5758.

E-bost: SWeaver@cardiffmet.ac.uk a/neu dataprotection@cardiffmet.ac.uk.

Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn yn esbonio: Sut y bydd y Brifysgol yn defnyddio'ch data personol i sicrhau bod taliadau eich Ysgoloriaethau Chwaraeon yn cael eu talu'n ddiogel i'ch cyfrif banc; a'ch hawliau o ran prosesu eich data at y diben hwnnw.

O dan y GDPR, rhoddir sawl hawl i chi mewn perthynas â sut y caiff eich data ei brosesu. Mae gennych hawl i:

- Cael mynediad at eich gwybodaeth bersonol.
- Gwrthwynebu prosesu eich gwybodaeth bersonol.
- Cywiro unrhyw ddata a gedwir yn anghywir.
- Cyfyngu ar brosesu gwybodaeth bersonol benodol.

Dylid cyflwyno unrhyw geisiadau neu wrthwynebiadau yn ysgrifenedig i Swyddog Gwybodaeth a Chydymffurfiaeth Data'r Brifysgol: -

Sean Weaver
Prifysgol Metropolitan Caerdydd
Rhodfa'r Gorllewin
Llandaf
Caerdydd
CF5 2YB

Mae gan Brifysgol Metropolitan Caerdydd Bolisi Diogelu Data, sydd ar gael [yma](#).

Os ydych yn dymuno gwneud cwyn am y ffordd y mae eich data personol wedi cael ei brosesu gallwch ddod o hyd i fanylion am sut i wneud hynny [yma](#).

Os nad yw'r broses hon yn datrys eich mater, neu os ydych am fynd â'ch cwyn ymhellach, mae gennych hawl i gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth. Y manylion cyswllt yw:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth,
Wycliffe House,
Water Lane,
Wilmslow,
Cheshire,
SK9 5AF
www.ico.org.uk